Prosiect Cydnerthedd Bwyd Sifil Dyfed Powys

Adroddiad crynodeb gweledol

Mawrth 2026

MILLER
Research Evaluation Consulting



Dyfed Powys | Gwydnwch Bwyd Sifil Civil Food Resilience

Centre for Alternative Technology
Canolfan y Dechnoleg Amgen

Y Briff

Mae system fwyd y DU yn wynebu pwysau hinsawdd, economaidd, geowleidyddol a chadwyn gyflenwi cynyddol; mae siciau cadwyn gyflenwi yn y blynyddoeddd diweddar wedi dinoethi gwendidau'r systemau hyn i achoswyr straen, y disgwylir i bob un ohonynt ddwysáu. O ganlyniad, mae cydnerthedd bwyd wedi dod i'r amlwg fel mater o ddiogelwch cenedlaethol hollbwysig yng Nghymru a'r DU.

Beth yw cydnerthedd bwyd?
"Capasiti system fwyd, ei sefydliadau, busnesau, a chymunedau i sicrhau mynediad dibynadwy at fwyd diogel, maethlon a fforddiadwy o dan amodau arferol a rhai y tarfwyd arnynt."

Yn Nhachwedd 2025, comisiynodd Partneriaethau Bwyd Lleol (LFPau) Dyfed Powys (Bwyd Powys Food, Partneriaeth Bwyd Sir Gâr, Partneriaeth Bwyd Ceredigion a Phartneriaeth Bwyd Sir Benfro) Miller Research a Labordy Arloesedd y Ganolfan Dechnoleg Amgen (CAT) i gyflawni ymchwil i gefnogi a ffurfio datblygiad Strategaeth Cydnerthedd Bwyd i ranbarth Dyfed Powys. Roedd ymchwil gan Miller i raddau helaeth yn golygu adolygiad bwrdd gwaith a chyfweliadau ansoddol â chynrychiolwyr LFP a gweithredwyr eraill y system, a rhedodd CAT Labordy yn cynnwys dau weithdy cyfranogol gyda chyfranogwyr o bob rhan o'r system fwyd a thu hwnt.

Ffurfiodd y darn hwn o waith gyfres ehangach o weithgareddau cysylltiedig â Phrosiect Cydnerthedd Bwyd Sifil Dyfed Powys.

Y Barthneriaeth




BWYD POWYS FOOD
Cultivate I Gymunedau Tyfu For Growing Communities
PEMBROKESHIRE LOCAL FOOD PARTNERSHIP
PARTNERIAETH BWYD LLEOL SIR BENFRO
PLANED
PARTNERIAETH BWYD CEREDIGION
MENTERA
BWYD SIR GÂR FOOD
Social Farms & Gardens Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Amcanion

Amcanion yr ymchwil hwn oedd i:

- Adnabod asedau a bylchau'r system fwyd bresennol o fewn Dyfed Powys
- Asesu cyflwr presennol cydnerthedd bwyd yn Nyfed Powys
- Asesu risgiau'r dyfodol i'r rhanbarth trwy archwilio senarios argyfwng bwyd
- Adnabod cyfleoedd ar gyfer lliniaru ac addasu
- Adnabod llwybrau a gweithredwyr allweddol sydd eu hangen i gryfhau cydnerthedd



Ble ydym ni nawr? Cyflwr presennol cydnerthedd bwyd yn Nyfed Powyg

Dimensiwn cydnerthedd bwyd	Is-barth	Sgôr
Cydnerthedd ochr cyflenwi	Capasiti Cynhyrchu Lleol	
	Amrywiaeth Cynhyrchu	
	Seilwaith Prosesu a Storio	
	Dibynadwyedd Cludiant a Logisteg	Data annigonol
	Dibyniaeth ar Ynni	Data annigonol
Cydnerthedd ochr galw	Fforddiadwyedd	
	Diogelwch Bwyd	
	Agaeledd Deiet Iach	
	Cyfran Caffael Lleol	
Cydnerthedd llywodraethiant a pholisi	Integreiddio Strategol	
	Cydlynu Sefydliadol	
	Parodrwydd am Argyfwng	
	Sefydlogrwydd Cyllido	
Cydnerthedd cymunedol a chymdeithasol	Seilwaith Bwyd Cymunedol	
	Sylfaen Gwirfoddolwyr a Sgiliau	Data annigonol
	Cynhwysiant a Thegwch	
	Dwysedd Rhwydweithiau Cymdeithasol	

Penawdau ystadegau:

5% o'r tir amaethyddol yn Nyfed Powys wedi'i ymrwymo i gnydau a garddwriaeth er bod y rhanbarth yn meddiannu 56% o gyfanswm tir amaethyddol Cymru

17% o'r galw rhanbarthol am ffa a chodlysiau yn cael ei ateb yn ôl Deiet Bwyta'n Dda llywodraeth y DU

Sgoriau Mynegai Bwyd Lleoedd Blaenoriaeth ar gyfer mynediad ac agosrwydd at wasanaethau bwyd (mae sgôr o 1 yn cynrychioli'r lle bwyd blaenoriaeth uchaf, ac felly'r un mwyaf bregus o ran mynediad at fwyd):



Dyfed Powys - 3.48

Cymru - 5.48

36% o'r ardaloedd bach ar draws Dyfed Powys yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau

0 cyngor ar draws Dyfed Powys wedi cyhoeddi cynlluniau bwyd argyfwng penodol, a Chyngor Sir Powys yn unig a gyfeiriodd at fwyd yn eu Cofrestr Risg Strategol

Ble ydym ni'n mynd?

Sut mae Dyfed Powys gydnerth o ran bwyd yn edrych mewn dogfennau polisi a strategaeth presennol y DU a Chymru?

1. Wedi'i Wreiddio'n Lleol, Wedi'i Gysylltu'n Rhanbarthol
2. Amrywiol a Pharod am Sioc
3. Mynediad Iach, Teg at Fwyd
4. Pŵer Cymuned a Chyfrifoldeb Cyhoeddus
5. Cydnaws â'r Hinsawdd a Chynaliadwy
6. Polisi wedi'i gydlunu a'i Integreiddio
7. Strategaeth Genedlaethol a Chyflawni Leol

Sut mae cyfranogwyr yn meddwl mae Dyfed Powys cydnerth o ran bwyd yn edrych?

Addysg

Mentrau annibynnol, graddfa lai yn gweithio mewn model cydweithredol

Ffermio cymysg cynyddol, yn defnyddio egwyddorion organig ac atgynhyrchiol

Lleol

Ymdrechion cydlynol

Pobl

Llawer o synergeddau cadarnhaol a buddion canlyniadol anfwriadol

Nid-er-elw

Gwe o CSAau

Cymuned

Hunanholiadol a hunanfyfyriol, radicalaidd o onest, wedi datgelu pŵer

Ffermio cymysg cynyddol, yn defnyddio egwyddorion organig ac atgynhyrchiol

Cyfathrebu gwell a mapio gwasanaethau, prosiectau ar sail gwybodaeth a chymunedau

Partneriaethau

Proffidiol a sicr ar gyfer y rheini sy'n cynhyrchu bwyd ar lefel leol

Perthnasol

Cyllido

Cysylltiedig

Buddsoddiad mewn sgiliau Archwaeth

Teg

Cydweithio

Arallgyfeirio a chadwyn gyflenwi gref

Llythrennedd bwyd mewn ysgolion

Addysg i addasu deietau

Ymagwedd system gyfan

Hygyrchedd

Cynhwysol

Sut ydym ni'n cyrraedd yno?

Meysydd cyflawni ar gyfer Dyfed Powys cydnerth o ran bwyd:

	Tymor byr	Tymor canolig	Tymor hirach
Llwybr parodrwydd	**#1 Uwchraddio Ymwybyddiaeth:** ymgysylltu a llywodraethiant	**#2 Adnabod Anghenion Bwyd:** blaenoriaethu grwpiau bregus	**#4 Datblygu seilwaith:** adeiladu amrywiaeth
		#3 Mapio Asedau Bwyd: deall cryfderau presennol	**#5 Paratoi cynlluniau gweithredol:** ar gyfer ymateb i darfu dwys ar fwyd
Galluogwyr parhaol	**#6 Uwchsgilio pawb:** grymuso â gwybodaeth a sgiliau		
	#7 Cryfhau Systemau Bwyd Lleol: cefnogi cynhyrchu cynaliadwy		
	#8 Ailgydbwyso pŵer: tuag at y bobl		

I baratoi ar gyfer siociau bwyd DWYS

I fynd i'r afael â gwendidau CRONIG

Pa agweddau a gwerthoedd sydd angen inni eu hymgorffori?

- **Cyfranogaeth** - ymgysylltu cyhoeddus gwirioneddol; ymagweddau cyfranogol at wneud penderfyniadau.
- **Meddwl mewn systemau** - ymagweddau systemau sy'n cydbwyso'r tymor byr a hir.
- **Amrywiaeth** - mae persbecftifau unigol a phwyntiau methiant unigol yn tanseilio cydnerthedd.
- **Rhannu a chydweithio** - gyda'n gilydd, mae gennym yr amser, sgiliau, gwybodaeth ac adnoddau materol.
- **Grymuso** - gwybodaeth a sgiliau gwell; cyfathrebu gonest; ymddiriedaeth.
- **Cynaliadwyedd cyfannol** - mae systemau bwyd cynaliadwy yn cyflawni buddion economaidd, ecolegol a chymdeithasol; mae bwyd a thir yn 'gyfoeth' ar y cyd.

Dechrau arni

’Camau nesaf’ a argymhellir’: datblygu strwythurau a phrosesau llywodraethiant ar gyfer gweithredu’r wyth maes cyflawni bwyd:

